tafod elái

MAWRTH 2018

Rhif 325

Pris 80c

Gwobrau Tennis Cymru

Rydym yn hynod o falch i gyhoeddi mai Ysgol Gyfun Garth Olwg sydd wedi ennill Gwobr Addysgol Tennis y Flwyddyn. Llongyfarchiadau i'r disgyblion a'r staff a diolch yn fawr iawn i Miss Kath Morgan am arwain y prosiect llwyddiannus hwn. Bydd yr ysgol nawr yn cynrychioli Cymru yn y Gwobrau Prydeinig a fydd yn cael eu cynnal yn Wimbledon ym mis Gorffennaf.

Tafod Elái ar 'Rownd a Rownd'

Roedd un gwyliwr craff wedi sylwi fod Tafod Elái yn cael ei ddarllen gan staff Ysgol Uwchradd y ddrama deledu 'Rownd a Rownd'. Yn y bennod ym mis Chwefror mae'n papur bro i'w weld yn glir ar y wal yn yr ystafell athrawon.

Rifiw y Dwrlyn (Tudalen 11)

Y Côr

Cyfle Arbennig yn y Bae

Be' fwy sy angen ei ddweud? Orig yng nghwmni Ashok Ahir ydoedd ein cyfarfod Merched y Wawr mis Chwefror - ac am awr ddifyr! Estynnodd Eira Williams groeso cynnes i Ashok - y ddau yn 'nabod ei gilydd yn dda. Ashok yw Cadeirydd ysbrydoledig Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Caerdydd - mae ei gefndir, ei hanes a'i daith i'r barchus, arswydus swydd yn anhygoel. Yn enedigol o ganolbarth Lloegr, o gartref aml-ddiwylliannol, aml-grefydd, yn briod â Manon (Edwards) o Aberystwyth mae ei sêl a'i frwdfrydedd at bopeth Cymraeg yn heintus a rhyfeddol. Rhannodd lawer hefo ni - ei hanes personol ynghyd â'i daith at Gymreictod. Cawsom wybod ambell ffaith am yr Eisteddfod wahanol, ddi-ffiniau, arloesol fydd yn llenwi'r Bae ddechrau mis Awst eleni! Cododd archwaeth ynom oll fel gwrandawyr!

Canolfan y Mileniwm fydd y Pafiliwn wrth i'r Eisteddfod ddod i'r Bae a bydd cyfleusterau gorau'r wlad ar gael i'r Brifwyl. Bydd yr Eisteddfod yn colli 10 – 15% o'i incwm wrth beidio codi am fynediad i'r maes ac felly mae'n bosibl y bydd rhaid talu am sedd yn y pafiliwn. Yn adeilad y Pierhead fydd y Ganolfan Groeso a Maes D i'r Dysgwyr. Bydd stondiau yn cychwyn ger Canolfan Red Dragon ac yn mynd heibio Canolfan y Mileniwm ac ymlaen rownd at yr Eglwys Norwyaidd. Bydd y Lle Celf a'r Cymdeithasau yn Adeilad y Senedd. Dywedodd Ashok "Mae gennym ni gyfle i ddangos ble mae'r iaith Gymraeg yn ffitio mewn i fywyd pobl Cymru. Hwn fydd y cyfle gorau erioed i'r Eisteddfod roi llwyfan i'r iaith. Gobeithio fydd y trefniadau i gyd yn eu lle erbyn dechrau mis Ebrill."

Mae £100,000 yn weddill i'w godi i gyrraedd y targed lleol ond mae'r Pwyllgor Gwaith yn hyderus o gyrraedd y nod mewn da bryd ar gyfer y Brifwyl yn y Bae.

Diolch iddo am roi o'i amser prin i ddod atom a rhannu ei weledigaeth! Pob lwc gyda'r holl waith sydd eto i'w gyflawni! Ashok - fy arwr!

Sgets yr Arweinwyr Rhyngwladol

Ysgol Pont-Sion-Norton

Cwis Llyfrau
Bu tîm o flwyddyn 3 a 4 a thîm o flwyddyn 5 a 6 yn cymryd rhan yn rownd trafod y Cwis Llyfrau ym mis Chwefror. Maent nawr yn brysur yn paratoi ar gyfer y rownd nesaf! Diolch i Eurgain Haf am ddod i ateb cwestiynau am ei llyfr gyda chriw blwyddyn 3 a 4.

Ymweliad
Diolch i ddynion tân Pontypridd am ddod i siarad gyda blwyddyn 5 am beryglon yn y cartref a sut i gadw'n ddiogel.

Dydd Miwsig Cymru
Bu llawer o ddawnsio a mwynhau wrth i'r ysgol ddathlu Dydd Miwsig Cymru. Cafon ni ddisgo a llawer o hwyl! Diolch i DJ Sampson am y disgo!

Eisteddfod Ysgol
Cafwyd diwrnod hyfryd yn dathlu Eisteddfod yr ysgol a dewis cynrychiolwyr yr ysgol ar gyfer yr Eisteddfod Gylch. Pob lwc i bawb!

Rygbi
Cafwyd llwyddiant mawr yn ddiweddar gyda rygbi'r bechgyn. Daethant yn 3ydd yng nghystadleuaeth 7 bob ochr yr Urdd.

Bu'r merched hefyd yn chwarae rygbi tag ym mis Ionawr yn y mwd mawr-profiad oer, gwlyb a hwyliog! Diolch i bawb a fu yn hyfforddi'r merched a'r bechgyn.

Ffair Nadolig
Bu criw o blant blwyddyn 6 yn brysur yn creu eitemau i'w gwerthu yn ffair Nadolig Ysgol Gyfun Garth Olwg. Roedd yn brofiad da a chodwyd arian tuag at y dosbarth hefyd! Da iawn chi!

Nofio
Llongyfarchiadau i Aled, Rhodri, Caitlyn a Gwen ar gyrraedd rownd Cenedlaethol cystadleuaeth Nofio'r Urdd.

Cogurdd
Cynhaliwyd rownd gyntaf y Cogurdd ym mis Ionawr. Mae'r criw buddugol wedi bod yn brysur yn ymarfer ar gyfer rownd 2. Pob lwc iddyn nhw!

Ailgylchu
Diolch i bawb a fu'n danfon eu cardiau Nadolig i'r ysgol i'w hailgylchu. Cafon nhw eu pwyso gan gynrychiolydd o'r Sir fel rhan o'u cystadleuaeth rhwng yr ysgolion. Mae'r Cyngor Eco yn croesi'u bysedd eu bod wedi casglu digon i ennill gwobr eleni!

Croeso a Ffarwelio
Croeso nôl i Mrs Rees ar ôl cyfnod hir o salwch. Mae pawb yn falch o'ch gweld nôl. Pob dymuniad da i Miss Morgan sydd yn dechrau ei chyfnod mamolaeth ar ddechrau mis Mawrth.

Menter Iaith
Rhondda Cynon Taf
01443 407570
www.menteriaith.cymru

Dyma flas o'r hwyl a sbri gafon ni yn Dewch i Chwarae yng Nghanolfan Chwarae Rhydyfelin dros hanner tymor.

Hyfryd i weld teuluoedd yn mwynhau'r gweithgareddau Cymreig. Gobeithio bod y traed ddim yn brifo gormod ar ôl yr holl ddawnsio arbennig!

Y Diliau yn ail-greu llun o glawr eu record gyda char Gilbern a adeiladwyd yn Llanilltud Faerdref (tudalen11)

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Gwobr Efydd y Siarter iaith
Llongyfarchiadau anferthol i holl ddisgyblion, staff a Llywodraethwyr yr ysgol ar lwyddo i ennill gwobr efydd y Siarter Iaith. Roedd pawb wedi cydweithio'n ardderchog ac wedi rhoi ymdrech arbennig i sicrhau ein bod yn llwyddiannus fel ysgol.

Dydd Miwsig Cymru
Cafwyd diwrnod prysur iawn yn dathlu Dydd Miwsig Cymru gyda nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal ym mhob dosbarth. Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn perfformio yn eu blychau canu tra roedd disgyblion yr adran iau yn brysur gyda'u prosiect 'Celfed' - sef celf sy'n cerdded. Addurnodd pob disgybl grys- t i ddathlu DMC. Mae'r disgyblion yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth Cymraeg yn ddyddiol a bellach yn ei lawrlwytho ar eu ffonau symudol!

Tîm Pêl Droed Merched Bl 5 a 6
Bu tîm pêl droed merched Bl 5 a 6 yn hynod lwyddiannus ar eu hymddangosiad cyntaf pan ddaethant yn ail yn nhwrnament 'Game On Wales' ym Mhontypridd. Campus merched!

Gweithdai Reinshaw
Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 ddiwrnod pleserus ac addysgiadol iawn yn cymryd rhan mewn nifer o weithdai Stem o dan gyfarwyddyd staff cwmni Reinshaw. Ysbrydoliaeth i'r dyfodol i nifer rwy'n siŵr.

Sain Ffagan
Daeth hanes yn fyw i ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn ystod eu hymweliad â Sain Ffagan - ble roedd Mr Phillips yn athro hynod o llym yn ysgol Maestir! Cafwyd cyfle yn ogystal i edrych ar dai Rhyd y Car i weld sut mae bywyd wedi newid

Disgo Santes Dwynwen
Bu'r Criw Cymraeg wrthi yn ddiwyd iawn yn trefnu Disgo Santes Dwynwen eleni. Roedd y disgyblion wedi mwynhau dawnsio i gerddoriaeth Cymraeg a'r ffefryn heb os oedd 'Sebona Fi' gan Yws Gwynedd. Braf oedd croesawu Hari Welsh cyn-ddisgybl yn ôl i'r ysgol fel y DJ.

P.C.Lloyd
Diolch yn fawr i P.C.Lloyd am gynnal gweithdy ar ymddygiad gwrth gymdeithasol gyda disgyblion Blwyddyn 5 yn ddiweddar.

Bl 6 yn Renishaw

Sain Ffagan

Tîm Pêl Droed Merched Bl 5 a 6

Disgo Santes Dwynwen

BL 3 yn dathlu Dydd Miwsig

Apêl Pentyrch a Chreigiau, Eisteddfod Caerdydd 2018

Noson Rasio Ceffylau yng Nghlwb Rygbi Pentyrch 8fed o Fawrth
Tocynnau ar gael drwy ffonio 07855 453409 neu cysylltwch ag aelod o'r Pwyllgor. Dewch am dipyn o hwyl a sbri, fydd yn cael ei arwain gan y darlledwr heb ei ail, John Hardy.

Cyngerdd Arbennig gyda Charlie Lovell-Jones 5ed o Ebrill
Tocynnau ar gael cyn hir – ewch i gyfri Facebook neu Twitter y Pwyllgor (gweler isod) am fanylion, neu ffoniwch 07855 453409.

Noson Fawreddog Arall – Mai 2018!
I'r rheiny fynychodd y Noson Fawreddog gyda Footloose yng Nghlwb Rygbi Pentyrch fis Mai 2017, byddwch yn gwybod am lwyddiant y noson, a'r hwyl a gafwyd. Penderfynwyd felly i drefnu ail Noson Fawreddog i gloi gweithgareddau'r Pwyllgor eleni. Bydd y noson eleni yn cael ei chynnal yn y babell fawr ar Barc y Dwrlyn, Clwb Rygbi Pentyrch ar yr 11eg o Fai 2018.

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Betsi Griffiths

Clwb Rygbi

Gareth Walters ar y chwith – Rheolwr Llwybyr Datblygiad

Wel dyma i chi dymor!. Ar ôl 12 gêm, ennill 10, colli 1 ac 1 gêm gyfartal mae'r tîm cyntaf yn yr ail safle yn y gynghrair gyda 4 gêm mewn llaw dros Cilfynydd sydd ar y brig. Siom wedi bod ar sawl dydd Sadwrn gyda gemau wedi eu gohirio oherwydd tywydd gwlyb yn eu herbyn gyda phawb mor frwdfrydig i chwarae. Carfan ifanc yw'r chwaraewyr gyda chanlyniadau gwych. Roeddynt yn anffodus i beidio bod yn un o'r 8 i chwarae yng ngemau terfynol y Belen Arian. Mae hyfforddwr newydd wedi ymuno yng ngofal y cefnwyr sef Wesley Greening o Donyrefail. Mae ei fab Liam yn chwarae maswr i Gilfach Goch ac yn aelod flaenllaw o'r garfan. Mae Wesley wedi ei apwyntio ar ôl i'r prif hyfforddwr, Gareth Walters, ymuno â thîm rygbi'r Gweilch fel aelod o'r tîm rheoli. Ergyd mawr i'r clwb ar ôl fod yn rhan fel chwaraewr ac hyfforddwr am 27 mlynedd ond mae pawb yn falch ohono am ei fod yn haeddu'r cyfle i fod yn rhan o rygbi ar y lefel hon.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

Colli Merle

Gyda thristwch mawr rhaid adrodd ein bod yn Nhonyrefail wedi colli Merle Roberts, un o ddarllenwyr ffyddlon Y Tafod. Ar ôl dysgu Cymraeg yn rhugl, aeth Merle ati gyda rhai o'i chyfeillion oedd ar y Cwrs Dwys gyda Basil Davies i sefydlu cangen o Ferched y Wawr yn Nhonysguboriau. Roedd yn berson arbennig iawn – yn weithgar yng Nghapel Bethlehem, yn ymweld â'r henoed ac yn ffrind i bawb. Roedd ganddi lais tawel a phersonoliaeth gynnes ond cadarn. Roedd ganddi rywbeth cadarnhaol i'w ddweud ar bob achlysur. Hi oedd y person cyntaf i alw gydag arian Y Tafod bob blwyddyn. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'i gwr Jack, ei meibion Geraint a Meirion, a'r wyrion Sam a Tom. Roedd Capel Bethlehem ac Amlosgfa Llangrallo yn orlawn ar gyfer ei hangladd ar 20 Chwefror – prawf digamsyniol o'i phoblogrwydd.

Noson Sgwrsio

Cynhelir y Noson Sgwrsio nesaf nos Fawrth, 13 Mawrth yng Nghlwb Rygbi Tonyrefail am 7pm. Croeso i bawb sydd am gael sgwrs yn Gymraeg.

Salwch

Nid oedd yn flwyddyn newydd dda i Miss Mair Thomas, 1 Wood Street. Bu Mair yn yr ysbyty am sbel ar ôl cwymp ar brynhawn dydd Nadolig. Brysiwch wella Mair! Byddwch yn amyneddgar. Mae'r gwanwyn ar ei ffordd ac mae aelodau capeli Moreia a Bethel yn gweld dy eisiau.

talent
HR CONSULTANCY
YMGYNGHORIAD

Gwasanaeth Adnoddau Dynol broffesiynol dwyieithog ar gael gan
Bethan Emanuel MA FCIPD
Yn newydd yn 2018 – mentora ac anogaeth i Uwch reolwyr.
Cysylltwch ar bethanemanuel@talent.me.uk neu 07778015585

Merle yn dathlu pen-blwydd aur Merched y Wawr gyda'i ffrindiau yng nghangen Tonysguboriau

Marian Evans a Hannah Roberts fu'n dathlu Cwilt yr Eisteddfod (tudalen 9)

Elina a Splash (tudalen 9)

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Penblwydd Hapus
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gwyneth Williams wedi iddi ddathlu penblwydd arbennig iawn yn ddiweddar.

The Garth Domain
Braf yw gweld rhifyn arbennig (rhif 61) o'r Garth Domain yn cael ei gyhoeddi ar gyfer mis Mawrth 2018 i ddathlu 25 mlynedd ers ffurfio Cymdeithas Hanes Lleol Pentyrch a'r Cylch. Mae Don Llewellyn wedi crynhoi pytiau diddorol o rifynnau'r gorffennol ac unwaith eto mae'n gofnod gwerthfawr iawn o hanes yr ardal. Diolch Don am yr holl waith manwl yn creu archif mor bwysig.

Rifiw Clwb y Dwrlyn
Noswaith dda i chi ffrindiau annwyl
Dewch i mewn i gael hwyl a sbri,
Chwi gewch hanes rhai pobol enwog
A rhai eraill fel chi a fi.

Dyna bennill cynta'r gân agoriadol a sgrifenwyd gan Ann Dwynwen a dyna'n union a gawsom yn y Rifiw. Roedd y Clwb Rygbi dan ei sang ar gyfer y sioe fawr. Trefnwyd a chydlynwyd y cyfan yn grefftus gan Nia a Colin ac fe agorwyd y noson ganddynt gyda chyflwyniad am 2017 a'i phersonoliaethau a digwyddiadau. Yn gymysg o'r dwys a'r doniol profodd y "Stomp - Fiw" wybodaeth y gynulleidfa am 2017. Gwerthfawrogwyd englynion bachog Colin ac fe gafwyd tipyn o hwyl wrth geisio dod o hyd i'r ateb cywir - y dyddiad, yr enw, y llun - am wahanol bobl a digwyddiadau o Trump i Theresa May, o George Clooney i'r Oscars.

Er enghraifft, pwy yw hwn?

Gŵr muriau'r geiriau marwol - yn arthio
Gau rethreg beunyddiol
Gwleidydd y pwys affwysol,
Baldorddyn melyn llawn lol.

A'r un a chwifiodd y cerdyn lliw cywir yn fwy aml na neb arall oedd Margaret Roberts gan ennill stollen y Stomp.

Ymlaen wedyn at y sgetsys. Gwerthu "chippings" oedd un o syniadau mwya' gwreiddiol pwyllgor apêl Creigiau. Cydymdeimlwyd gyda hynafgwyr Clwb y Dwrlyn, yn arbennig "Huw coes bren." Daeth Melania a Trump i'n diddori, ac ni wyddai neb fod Gary yn medru siarad cystal Corean â Kim Jong-un! Cafodd Meghan sawl cyngor doeth gan grŵp o "gwennod " ar gyfer ei pharti plu a chydymdeimlwyd â siomedigaeth Ifan wedi iddo gael ei wrthod gan Radio Cymru 2. Cawsom fod yn dystion i Werthusiad Gwybyddol Trump ac ymunodd arweinwyr amlyca'n byd ag e' i ateb neu osgoi ateb cwestiynau treiddgar ein Eirlys Lyse Doucet ni. Ymhob sgets roedd y cymeriadu'n wych ac mae'n siwr bod siopau trin gwallt yr ardal wedi gwneud elw sylweddol wrth werthu sawl wig i'r actorion!

Dyna noson arall i'w thrysori ac yng ngeiriau'r gân gloi -

'Diolch am gael chwerthin
Ac am gael canu cân,
Ynghanol gaeaf diflas
Mae'n well na golau'r tân."

Diolch i Nia a Colin yn arbennig , ac i'r rhai a fu wrthi yn sgriptio ac yn actio. Fel d'wedodd Nia, " Rydym mor ffodus i berthyn i gymdeithas glos, gyfeillgar a chefnogol. Mae 'na ryw riddyn cyffredin rhyngom ni i gyd sy'n ein tynnu at ein gilydd." Unwaith eto profodd noson y Rifiw bod hynny'n wir. Yng ngeiriau Colin -

Un echel yw ein hachau – o'n geni
Mae genyn cyndadau
Yn gaeth drwy'r cenedlaethau
Yn ein hil wedi ei hau.

Noson yng nghwmni Hywel Griffiths
Yng nghyfarfod Cylch Cadwgan ddiwedd Ionawr canolbwyntiodd Hywel ar gynnwys ei gyfrol ddiweddaraf – Llif Coch Awst – a chyflwynodd ddetholiad o'r cerddi gyda gair o eglurhad ynghylch yr hyn a'i sbardunodd i'w creu. Tynnodd sylw at y ffaith bod cyfran o'r gyfrol yn deillio o'r cyfnod pan fu e' a'i deulu yn byw yn Nhalybont a'r cerddi, felly, yn adlewyrchu tirlun yr ardal a'i chwedloniaeth. Bro ei febyd a phrofiadau a ddaeth i'w ran yn sgíl teithiau tramor oedd testun nifer o'r cerddi eraill gan gynnwys rhai a gyfansoddodd pan yn fardd y mis Radio Cymru yn ystod cystadleuaeth yr Euros 2016.

Cafwyd blas ar wahanol themau y gyfrol gyda chyflwyniadau cynnes a didwyll. Hoeliwyd sylw y gynulleidfa gydol y noson ac fe brynodd nifer gopi o'r gyfrol ar y diwedd. Bu'n noson lwyddiannus a phawb oedd yn bresennol yn falch o gael y cyfle i ddod i nabod a gwerthfawrogi gwaith bardd sy'n llwyr feistr ar ei grefft.

Bws 124 a 136
Mae gan gwmni Stagecoach gynlluniau i newid a chyfuno llwybrau bws 124 a 136. Cafodd trigolion Pentyrch a Chreigiau gyfle i fynegi eu barn drwy lenwi ffurflen a oedd ar gael ar fws arbennig a ddaeth i'r ddau bentre ar yr 20fed a'r 21ain o Chwefror. Bydd yn rhaid cadw llygaid barcud ar y datblygiadau gan y gallai olygu newid arwyddocaol.

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Nos Lun 19eg o Chwefror, croesawon ni Dr Heledd Iago o Brifysgol Abertawe atom i sôn am 'Proteinau: Delfryd Delweddau Rhyngweithiol'. Yn gyntaf, soniodd Heledd, sy'n wreiddiol o'r Rhyl, am ychydig o'i hanes o'r ysgol gynradd yn y Rhyl, i Ysgol Glan Clwyd ac yna i astudio neu i swyddi ym Mhrifysgolion Aberystwyth, Bangor ac Abertawe ond nid Caerdydd eto! Mae hi nawr yn ddarlithydd i'r Coleg Cenedlaethol Cymraeg yn Abertawe a maes ei hymchwil yw proteinau—blociau adeiladu sylfaenol organebau byw.

Soniodd Heledd am darddiad y gair protein, a ddyfeisiwyd gan Jöns Jacob Berzelius (1779-1848) o Sweden yn dilyn gwaith Gerardus Johannes Mulder a ddangosodd bod nifer o sylweddau organig yn debyg o ran cyfansoddiad cemegol. Esboniodd Heledd fel bod proteinau wedi eu gwneud o asidau amino. Mae trefniadau gwahanol o 20 asid amino sylfaenol yn gyfrifol am holl broteinau'r corff. Dangosodd fel y gall mwtaniad neu newid bychan yn mewn un rhan o'r protein achosi problemau dirfawr i unigolyn.

Nesaf soniodd Heledd am destun y ddarlith, sef creu delweddau o broteinau fel y gellir deall eu strwythur. Yn wreiddiol defnyddiwyd pelydrau-X ar grisialau o broteinau pur i weld trefniant yr atomau, ond nawr defnyddir dulliau cyfrifiadurol. Yn gyntaf dechreuir gyda dulliau cemegol i weld faint o bob asid amino sy'n bresennol mewn rhyw brotein arbennig, yna gellir defnyddio cyfrifiadur i ddatrys strwythur y protein gyda help basau data o briodweddau proteinau. Ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf roedd hyn yn cymryd blynyddoedd, nawr eiliadau yn unig sydd angen cyn cael delwedd o'r protein.

Soniodd Heledd am brotein o'r enw GRIN1 sy'n gysylltiedig â polymicrogyria sef datblygiad abnormal ymennydd babanod sy'n achosi trafferthion dysgu. Nod terfynol y gwaith yma yw deall sut mae clefydau genetig fel polymicrogyria yn dibynnu ar broteinau arbennig, ac yn y pen draw ceisio lleihau neu ddileu y clefydau yma gyda therapi genetig lle rydym yn dadwneud y mwtaniad i adfer gweithrediad y protein.

Rhys Morris

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Genedigaeth
Mae Dave a Rhian Eyres wrth eu boddau fod ganddynt ŵyr bach arall. Ganwyd William Emrys ddydd Sul, Chwefror 11eg yn fab i Rhian a Tim ac yn frawd bach i Noa.

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Tom a Doreen Edmunds, Penywaun ar golli eu mab Stephen yn ddisymwth tra ar drip busnes yn Dubai. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel y Tabernacl ddydd Gwener, Chwefror 23ain. Estynnwn hefyd ein cydymdeimlad i'w wraig, ei blant a'i wyrion.

Gadael am Batagonia
Dymunwn yn dda i Gwenno, merch Geraint a Caroline Rees, Penywaun a adawodd y pentref ddydd Mercher, Chwefror 21ain i dreulio cyfnod ym Mhatagonia. Mae Gwenno wedi ei phenodi yn swyddog datblygu'r Gymraeg yn Y Wladfa. Pob hwyl iti, Gwenno yn dy swydd newydd.

Noson o ganu yn Nhafarn y Carpenters
Yn dilyn llwyddiant y ddwy sesiwn flaenorol yn Nhafarn y Carpenters mae cryn edrych ymlaen am y sesiwn nesaf sydd i'w chynnal nos Sadwrn, Mawrth 24ain am 8 o'r gloch yr hwyr. Dewch i ganu neu dewch a'ch offeryn cerdd.

Y TABERNACL
Derbyn aelodau newydd
Pleser oedd cael croesawu dau aelod newydd i'r Tabernacl yn Oedfa Gymun fore Sul, Chwefror 4ydd. Mae Edwyn a Gaynor Evans wedi bod yn mynychu oedfaon yn Y Tabernacl yn ffyddlon ers iddynt symud i'r ardal o gyffiniau Wrecsam rhyw dri mis yn ôl. Mae Edwyn yn hanu o Ddinas Mawddwy, a Gaynor yn wreiddiol o Dalybont, Ceredigion. Croeso i chi eich dau i'r ardal.

Cadeirydd Newydd
Gorchwyl cyhoeddus cyntaf Margaret Pritchard Copley fel cadeirydd newydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr oedd cael derbyn a chroesawu Edwyn a Gaynor yn aelodau yn Y Tabernacl. Mae Margaret yn olynu Wendy Reynolds yn gadeirydd y bwrdd. Estynnwn ein llongyfarchion a'n dymuniadau gorau i Margaret gan ddiolch yn ddiffuant i Wendy am ei harweiniad doeth ac urddasol wrth i'w thymor hithau ddod i ben.

Brysiwch Wella
Dymuniadau da i Aneira Davies, Tonteg a dreuliodd rai dyddiau yn yr ysbyty wedi anffawd fach yn y cartref yn ddiweddar.

Ffarwelio â D.J.Davies
Cynhaliwyd angladd D.J.Davies, Tonyrefail yn Y Tabernacl ddydd Iau, Chwefror 8fed. Roedd y Gwasanaeth o dan ofal y Parchedig Eirian Rees. Darllenodd Geraint Wyn Davies ddarn o'r Ysgrythur a chafwyd tair teyrnged bwrpasol iawn i'r annwyl D.J. Soniodd Helen Prosser, ffrind mynwesol i D.J., am ei ymroddiad llwyr i Gapel y Ton yn Nhonyrefail cyn i'r achos ddod i ben. Soniodd am ei garedigrwydd diddiwedd ac am y wên siriol bob amser. Cafwyd teyrnged ddidwyll eto gan Iwan, ei fab, a roddodd hanes y teulu a'r fagwraeth gariadus a gafodd e a'i chwaer Eirwen ar yr aelwyd yn Nhonyrefail. Cafwyd y drydedd deyrnged gan Y parchedig Hywel Mudd, cyfaill o ardal Bryniwan a chydweithiwr iddo yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Paratowyd lluniaeth yn Y Ganolfan i'r teulu, i'w gyd-weithwyr yn Sain Ffagan a'r llu o ffrindiau a ddaeth i dalu eu cymwynas olaf i'w ffrind triw.

Tafod y Tab
Daeth rhifyn arall o "Tafod y Tab" i'n dwylo ddechrau'r mis. Diolch o galon i Gwilym ac Eleri Huws am rifyn arall diddorol a graenus.

Elusennau'r Tabernacl
Elusennau'r eglwys am eleni fydd, Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf, Cymorth i Ferched Cymru, Ysgol Tŷ Coch, Adref, Cymdeithas Nychdod Cyhyrol Duchenne a Becker.

Bydd cyfle i aelodau gyfrannu yn fisol drwy lenwi'r amlenni brown.

Merched y Tabernacl
Cyfarfu rhyw ddwsin o aelodau Merched y Tabernacl am ginio ysgafn yn Yr Hen Lyfrgell yng Nghaerdydd ddydd Mawrth, Chwefror 6ed. Ymlaen â ni, "Wedi rhoi'r byd yn ei le" i Neuadd Dewi Sant i fwynhau cyngerdd gan Sinfonia Cymru. Cerddorfa Siambr sy'n cefnogi cerddorion ifanc ar ddechrau eu gyrfa yw'r Sinfonia. Y pedwar cerddor a'n diddanodd oedd Ricky Gore (ffidil), Bryony Gibson Cornish (fiola) Ali Howes (soddgrwth) ac Amy Roberts (obo). Cyflwynwyd gwaith gan Mozart, Britten a Bach.

Cyfarfod nesaf y gymdeithas fydd Cinio i ddathlu ei Nawddsant yng Ngwesty Caesar's ar ddydd Iau, Mawrth 22ain gan gyfarfod am 12.30 ar gyfer 1 o'r gloch. Rhowch eich enw i Ros erbyn Mawrth 15fed os ydych am gyd-wledda.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Mawrth
Mawrth 4ydd Gwasanaeth Cymun dan ofal Aelodau'r Creigiau
Mawrth 11eg Y Parchedig Aled Edwards
Mawrth 18fed Sul Teuluol
Mawrth 25ain Côr Caerdydd yn cyflwyno "Myfi Yw" (oratorio o Efengyl Ioan gan Derec Williams, Linda Gittins a Penri Roberts.)

Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd
3–11 Awst 2018

Apêl am gyfraniadau a gwobrau

Gyda chwta chwe mis i fynd, mae gwaith trefnu Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a gynhelir rhwng 3 - 11 Awst eleni ym Mae Caerdydd yn prysuro ymlaen.

Mae cannoedd o wirfoddolwyr wedi bod yn gweithio'n ddygn ar y testunau yn ogystal â'r myrdd o weithgareddau cymunedol sydd wedi ac yn cael eu trefnu i godi arian tuag at y £320,000 a osodwyd fel nod i'r gronfa leol, sef cyfraniad Caerdydd i'r gost o £4 miliwn a mwy y flwyddyn sydd i gynnal yr ŵyl.

Medd Ashok Ahir, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith "Mae'r apêl ariannol yn mynd yn dda, ac yr ydym wedi pasio £200,000 gyda throad y flwyddyn newydd. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cefnogi hyd yma. Beth sydd ei angen yn awr yw un ymdrech fawr dros y misoedd nesaf i sicrhau ein bod yn cyrraedd y nod ariannol, i'n galluogi i gynnal Prifwyl yma yng Nghaerdydd fydd yn cwrdd â disgwyliadau'r miloedd o ymwelwyr ddaw o bob rhan o Gymru a thu hwnt fis Awst."

Yn ogystal â chyfrannu, mae unigolion a sefydliadau yn medru cynnig gwobr ariannol gyda rhai yn dymuno gwneud hynny er cof am rywun arbennig. Mae rhoi gwobr yn ffordd syml ond hynod effeithiol o gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol - tybed oes gennych chi ddiddordeb mewn cyfrannu ond ddim yn siŵr sut i fynd o'i chwmpas hi?

Mae cynnig gwobr yn rhwydd, gellir cysylltu â Swyddfa'r Eisteddfod drwy dudalen Rhoi Gwobr dan adran 2018 y wefan www.eisteddfod.cymru; dros y ffôn ar 0845 40 90 400 neu e bostio gwyb@eisteddfod.org.uk gyda'r manylion perthnasol.

Mae gwobrau ariannol ar gael i'w cyfrannu ymhob adran o'r Eisteddfod gan amrywio o £15 i £5,000! Mi fydd pob cyfraniad o £50 a mwy a dderbynnir cyn diwedd Ebrill yn cael ei gydnabod yn y Rhaglen.

Diolch ymlaen llaw am bob cefnogaeth. Am y wybodaeth ddiweddaraf am yr Eisteddfod Genedlaethol gan gynnwys manylion y cystadlaethau, Maes Carafanau a gwirfoddoli yng Nghaerdydd, ewch draw i www.eisteddfod.cymru

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**
Mis Mawrth 2018:
1 - Oedfa Dydd Gŵyl Ddewi (9:30 a.m.)
4 - Gwasanaeth Gŵyl Ddewi yr Ysgol Sul
11 - Oedfa gymun dan ofal y Parchg. Dyfrig Rees
18 - Oedfa Ardal dan ofal aelodau Llandaf
25 - Oedfa dan ofal Delwyn Siôn
Mis Ebrill 2018:
1 - Oedfa Gymun Sul y Pasg dan ofal y Parchedig R. Alun Evans
8 - Oedfa dan ofal Dafydd Iwan
15 - Oedfa dan ofal Delwyn Sion
22 - Oedfa dan ofal y Parchedig Allan Pickard
29 - Oedfa Ardal dan ofal aelodau'r Eglwys Newydd

ooooOOOOoooo

Yn yr Unol Daleithiau mae'r CIA, y Central Intelligence Agency", yn cyhoeddi gwybodaeth am wledydd y byd (ar wefan: https://www.cia.gov/library/publications/the-world-factbook/) yn dwyn y teitl "*CIA World Factbook*".

Darparu gwybodaeth ar hanes, pobl, llywodraethau, economi, daeryddiaeth, a materion cyfathrebu, trafnidiaeth, milwrol a thraws-wladol am 267 o endidau'r byd yw'r bwriad, (gan gynnwys mymryn am y Fatican)!

Mae'n cynnwys yn ogystal fapiau a baneri'r gwahanol wledydd, ynghyd â mapiau "politicaidd" o'r byd.

Mae'r fersiwn ar y we yn cael ei ddiweddaru'n gyson fel y gellid disgwyl gan gorff o'r fath sydd a'u bysedd ymhob peth sydd yn digwydd ym mhob cwr o'r byd.

Mae pob gwlad ac endyd yn cael ei chymharu o ran ei arwynebedd (mewn cilomedrau sgwar) â thalaith yn yr Unol Daleithiau!

Er engraifft, mae Afghanistan (y wlad gyntaf ar y rhestr), sydd yn rhif 42 o wledydd mwyaf y byd, bron yn chwe gwaith yn fwy na thalaith Virginia, ond ychydig yn llai na thalaith Tecsas.

Mae Malawi (Nyasaland tan y 6ed o Orffennaf 1964) [poblogaeth 2017 - 19,196,246] wedyn yn rhif 101 yn y rhestr, ac ychydig yn llai ei harwynebedd na thalaith Pennsylvania.

Mae y Deyrnas Unedig yn rhif 81 o ran arwynebedd gwledydd y byd, ac yn cael ei chymharu a Pennsylvania (dwy waith gymaint â'r dalaith) ac Oregon (ychydig yn llai na'r dalaith). Tydi'r CIA yn amlwg ddim yn cydnabod gwledydd unigol o fewn y Deyrnas Unedig!

Ond peidied poeni oherwydd fe wyddom am y ffenomenon rhyfedd hwnnw o gymharu maint nifer o bethau â maint Cymru. Hynny yw defnyddio Cymru fel uned fesur! Ie y Cymru –o – meter bondigrybwyll.

Yn ôl cerdd a gyfansoddwyd gan ŵr o'r enw Paul Lyalls, ystyria mai unig "(G)werth Cymru" yw fel a ganlyn:-

"Ei phrif gyfraniad i'r Deyrnas Unedig
Ydi fel ffon fesur
Oherwydd nos ar ôl nos
Mae'r ddesg newyddion yn datgan
"*Mae arwynebedd fforest-law*
Maint Cymru yn diflannu bob blwyddyn"
Neu, "*mae'r cyfanswm dŵr*
Sy'n cael ei golli yn Llundain trwy'r pibau swnllyd Victorianaidd
Yn ddigon i lenwi pwll nofio
Maint Cymru!" "

...

Er gwybodaeth, 20 761 cilomedr sgwâr yw maint arwynebedd Cymru – ferdwn ni ddim osgoi ychwanegu wrth gwrs fod hynny gyfystyr a 2 filiwn maes rygbi!

Syndod serch hynny oedd darganfod bod y gymhariaeth yma yn mynd yn ôl mor bell ag 1863 a gwerslyfrau Nelsons' School Series, a'r awdur Thomas G Dick bryd hynny yn cynharu maint Ynysoedd y Malfinas fel a bod "bron cymaint â Chymru".

Yn 1877 y defnyddiwyd y gymhariaeth gyntaf mewn papur newydd, a'r Times ar y 23 o Dachwedd yn trafod y cais i greu Parc Cenedlaethol yn Yellowstone yn yr Unol Daleithiau, gan son bod yr ardal "tua hanner maint Cymru!"

Pam defnyddio Cymru fel cymhariaeth?

Mae'n debyg i hynny ddigwydd pan sylweddolwyd y byddai'n rhaid i Ynys Wyth gael ei sgwario (*Ynys Wyth*[2]) i gynnig cymhariaeth deilwng!

Ond och a gwae, mae ein Cymru fach ni mewn perygl o golli ei statws ffon fesur (oherwydd metrigeiddio), a bod Gwlad Belg mwyach yn cael ei ffafrio fel cymhariaeth – ydi mae Gwlad Belg werth 1.47 Cymru! [er mai 3 gôl i 1 i Gymru oedd hi yn Ewro 2016 os cofiaf yn iawn].

Daeth "gwerth" ar y cyfan yma mewn cyd-destun tra gwahanol yn ddiweddar pan ymwelodd Aled Pickard, ar ran Masnach Deg, â'r Cwrdd Merched ym Methlehem ynghanol mis Chwefror.

Bryd hynny fe agorwyd llygaid a chegau'r criw at ymgyrch arbennig, sialens yn wir, i gefnogi ffermwyr ym Malawi i sicrhau addysg uwchradd i'w plant.

Hon yw un o wledydd dwysaf ei phoblogaeth, ond lleiaf datblygedig y byd - gwlad lle nad oes ond 1 o bob 3 o'r plant yn derbyn addysg uwchradd.

Yn gegrwth y deallwyd y byddai gwerthu 90 kg o reis yn galluogi un teulu i anfon plentyn i dderbyn addysg uwchradd am flwyddyn gron gyfan.

Neu ei osod yn ei ffurf fathemategol:-

Gwerthu 90 kg o reis = addysg uwchradd am flwyddyn i 1 plentyn

Cefnogi Gŵyl Cerdd Dant

Annwyl Ddarllenwr,
Yn Nhachwedd 2018 mae Gŵyl Genedlaethol Cerdd Dant Cymru yn ymweld â Blaenau Ffestiniog a`r Fro. Mae hwn yn ddigwyddiad cenedlaethol cyffrous i`r ardal ac mae edrych ymlaen garw at y digwyddiad.

Cynhelir yr ŵyl dros benwythnos ym mis Tachwedd. Mae hi`n ŵyl sy'n denu cystadleuwyr o bob cwr o Gymru a chaiff ei darlledu`n llawn ar S4C.

Mae'r pwyllgor gwaith a sefydlwyd yn dilyn cyfarfod cyhoeddus y llynedd wedi dechrau ar y dasg o godi arian i sicrhau gŵyl lwyddiannus a chofiadwy. Targed ariannol yr ŵyl yw £40,000. Mae'r pwyllgor gwaith yn gweithio'n galed iawn trwy drefnu digwyddiadau er mwyn codi arian i gyrraedd y nod.

Rydym yn troi atoch fel darllenwyr i ofyn yn garedig am eich cefnogaeth. Rydym yn gobeithio y byddwch mewn sefyllfa i ystyried y cais am gefnogaeth i'n galluogi i gyrraedd ein targed.

Os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch mae croeso i chi gysylltu hefo ni yn uniongyrchol.

Edrychwn ymlaen i glywed gennych.

Yn gywir iawn,
Iwan Morgan
(Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith)
Dewi Lake (Cadeirydd Pwyllgor Cyllid).
Ysgol y Moelwyn, Heol Wynne, Blaenau Ffestiniog. LL41 3DW.

Ceir mwy o fanylion yma:- https://www.jts.co.uk/90kg-rice-challenge

Diolch i Cath Edwards am ysbrydoli'r aelodaeth i dderbyn yr her – mae'r sosban bellach ar y tan a'r reis yn ffrwtian!

Beth am sicrhau bod "Gwir werth Cymru" yn cael ei gydnabod ar draws y byd oherwydd caredigrwydd a chonsyrn ei thrigolion at eu cyd-ddyn.

Mae neges Dewi Sant o hyd yn berthnasol yntydi!

A diolch i'r CIA am ein harwain yn anfwriadol i'r fan hyn!

ooooOOOoooo

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.bethlehem.cymru

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter). Dilynwch ni ar @gwebethlehem.

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Croeso
Dymuniadau gorau i Gareth Pardoe, Hillside View, a'i bartner Lowri ar enedigaeth eu plentyn cyntaf – mab bach, Edward Tomos.

Llongyfarchiadau i Rhianydd, Evans gynt, a'i gwr, Nicky. Ganwyd Reggie fis diwethaf yn frawd bach i Jimmy ac ŵyr newydd i Trevor a Gaynor, Lanwood Road, Graigwen.

Clwb y Bont
Dewch i gefnogi digwyddiad Cymraeg a Chymreig yn y Clwb mis yma pan ddaw Parti'r Efail i'n diddanu nos Wener, Mawrth 23ain am 7.30 p.m. Mynediad £5 wrth y drws.

Merched y Wawr
Bydd y Gangen yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi wrth giniawa yn y Trattoria, Tonysgyboriau nos Iau, Mawrth 8fed
Noson o chwarae Sgrabl Cymraeg sy'n digwydd nos Iau, Ebrill 12fed am 7.30 yn Festri Capel Sardis.

Llongyfarchiadau
Bydd dathlu yng Nghilfynydd a Graigwen mis yma pan fydd Graham Davies a Meinir Heulyn yn cyrraedd oed yr addewid! Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch.

Siop y Bont
Mae rhai o ddarllenwyr Tafod Elái wedi bod yn holi pryd mae Siop y Bont ar agor yn y Farchnad. Ers misoedd erbyn hyn mae'r siop ar agor bob Dydd Mercher, Gwener a Sadwrn.

Clwb llyfrau
Dwy nofel Saesneg sy dan sylw ym mis Mawrth sef 'Anatomy of a Scandal' gan Sarah Vaughan a 'The Travelling Cat Chronicles' gan Huro Arikawa. Dewch draw i'w trafod nos Fawrth, Mawrth 13eg am 8.00 yng Nghlwb y Bont.

PAP
Beth am ddod a thîm i Glwb y Bont nos Wener, Mawrth 2il i gystadlu yn y cwis, chwarae Bingo a bwyta nibyls?
I ddechre am 7.30. Timau o 4. £3 y pen

Pob Lwc
Dymuniadau gorau i Gôr Ysgol Llwyncelyn o dan arweinyddiaeth Elin Llywelyn Williams a'r cyfeilydd Gavin Ashcroft wrth iddynt deithio i Fangor i recordio rownd derfynol Songs of Praise School Choir of the Year 2018. Yr unig ysgol o Gymru i gyrraedd y rownd olaf.

Ysgol Evan James

(Lluniau tudalen 13)

Glanllyn
Aeth disgyblion blwyddyn 6 i Lanllyn am bedair noson ganol fis Ionawr a chafwyd amser gwych yno. Anghofiodd pawb am y tywydd rhewllyd wrth fwynhau'r holl weithgareddau. Diolch yn fawr i staff a phlant Ysgol Gynradd Garth Olwg am eich cwmni.

Gwledd Tsieineaidd
I ddathlu Blwyddyn Newydd Tsieina, cafodd dosbarthiadau Tom Jones, Cerys Mathews ac Elin Fflur wledd arbennig a bwytodd pawb lond eu boliau. Roedd y plant wedi creu llusernau a dreigiau mawr i addurno'r ystafell a phan ddaeth y bwyd o fwyty Tsieineaidd lleol, roedd pawb yn gyffrous dros ben. Prynhawn i'w gofio!

Eisteddfod yr ysgol
Cawsom fore gwych yn eisteddfod yr ysgol ddechrau mis Chwefror. Perfformiodd yr holl blant yn wych. Diolch i Miss Siân Elin Jones am ddod i feirniadu a phob hwyl i'r disgyblion fydd yn cynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Gylch.

Myfyrwyr TAR
Croeso i ddwy fyfyrwraig TAR, Mrs Eleri Jones a Miss Anwen Jones i'r ysgol. Dyma ail leoliad ysgol y ddwy ac rydym yn siŵr y byddant yn hapus iawn yn nosbarthiadau Culhwch ac Olwen a Sali Mali.

Diolch Miss Ritchie
Hoffem ddiolch yn fawr i Miss Kate Ritichie am ei gwaith yn nosbarth Ysbaddaden. Mae Miss Ritchie wedi cael swydd newydd ym Mhen-y-Bont a dymunwn yn dda iddi yno.

Croeso i Mr Gethin Rowlands, athro newydd dosbarth Blodeuwedd. Mae Mr Rowlands yn edrych ymlaen at helpu gyda'r holl glybiau chwaraean yn yr ysgol.

Ymweliadau arbennig
Mwynheuodd dosbarthiadau Tom Jones, Elin Fflur a Cerys Mathews eu hymweliad â Tesco. Yr uchafbwynt oedd blasu amrywiaeth o fwydydd a dysgu am waith Tony yn yr archfarchnad. Diolch Tony am drefnu'r cyfan.

Aeth dosbarthiadau Culhwch ac Olwen a Blodeuwedd i Amgueddfa Genedlaethol Cymru i weld yr orielau celf. Cafodd pawb ddiwrnod i'r brenin yn edmygu gwaith cymaint o artistiaid enwog.

Y Cwis Llyfrau
Aeth pedwar o ddisgyblion blwyddyn 4 i Dŷ Dysgu i gystadlu yn rownd gyntaf y cwis llyfrau. Roedden nhw wrth eu boddau'n trafod y nofel "Gwyliau Pitw" a'n edrych yn smart iawn yn eu gwisgoedd arbennig. Da iawn chi!

Gwisgo coch
Roedd môr o goch yn Ysgol Evan James pan wisgodd pawb mewn coch i godi arian i Ysbyty Felindre. Diolch i bawb am gyfrannu mor hael.

Arweinwyr chwarae
Daeth Jess Stacey o'r Urdd i gyflwyno hetiau i'r arweinwyr chwarae newydd o flwyddyn 6 mewn gwasanaeth arbennig. Erbyn hyn, mae'r arweinwyr chwarae'n brysur ar yr iard yn chwarae gemau gyda'r plant iau.

Sicrhau Dyfodol i'r Iaith

Annwyl Gyfaill,
Ddechrau mis Mawrth mae'n wythnos aelodaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, ac felly dyma anfon gair i ofyn i'ch darllenwyr ymaelodi er mwyn cefnogi'r Gymraeg.

Ers mwy na hanner can mlynedd mae Cymdeithas yr Iaith wedi bod yn brwydro i sicrhau dyfodol i'r iaith. Rydym wedi ennill llawer ond mae ffordd bell iawn i fynd cyn cyrraedd y nod. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i nod y Gymdeithas o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg, ond heb ymrwymo i'r camau gweithredu mwy manwl fydd yn sicrhau'r miliwn. Bydd y blynyddoedd nesaf yn hollbwysig o ran sicrhau dyfodol mwy cadarn i'r Gymraeg o safbwynt iechyd, darlledu, addysg a llawer iawn mwy.

Er mwyn llwyddo, mae angen rhagor o aelodau ar Gymdeithas yr Iaith ym mhob rhan o'r wlad. Mae modd i chi wneud gwahaniaeth ac felly dyma ni'n gofyn i chi am eich help. Un weithred fach. Un taliad bach bob mis neu am y flwyddyn fel dych chi'n gallu. Bydd yn gwneud gwahaniaeth a byddwch yn gwybod eich bod wedi helpu sicrhau dyfodol i'r iaith. Dewch.

Gallwch ymaelodi â'r Gymdeithas drwy ein gwefan, **cymdeithas.cymru/ymaelodi**, er mwyn talu gyda'ch cerdyn banc, neu mae croeso i chi dalu trwy siec at Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, Ystafell 5, Y Cambria, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ. Mae croeso i chi ein ffonio ar 01970 624501 hefyd, am fwy o wybodaeth neu i drefnu aelodaeth dros y ffôn.

Mae angen eich cefnogaeth er mwyn i ni allu parhau i frwydro dros ddyfodol mwy cadarn i'r iaith. Ewch ati heddiw i ymaelodi. Os na wnewch chi, pwy wneith?

Yn gywir,
Steffan Webb
Swyddog Aelodaeth
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Dewch i ddweud stori yn Eisteddfod Caerdydd

Mae gan yr Eisteddfod Genedlaethol gystadleuaeth berffaith ar gyfer unrhyw un sy'n hoffi pobl ac yn mwynhau dal sylw cynulleidfa – cystadleuaeth dweud stori.

Mae'r gystadleuaeth newydd hon yn gyfle i roi llwyfan i grefft sy'n gofyn am fedrau gwahanol iawn i sgiliau llefaru traddodiadol – ac rydan ni'r Cymry'n adnabyddus am ein gallu i wneud hyn.

Gyda llwyfan anffurfiol y Tŷ Gwerin yn gartref i'r gystadleuaeth yn Eisteddfod Caerdydd, dyma gyfle ardderchog i unrhyw un sy'n hoffi pobl ac yn mwynhau dal sylw cynulleidfa.

Mae gennym y gallu i hoelio sylw cynulleidfa ac i ddilyn trywyddion doniol, deifiol a thrist wrth ddiddanu criw o bobl. Mae ein diwylliant gwerin yn seiliedig ar ddawn y Cyfarwydd dros y cenedlaethau, a dyma a gadwodd ein llenyddiaeth yn fyw am ganrifoedd, gyda straeon yn cael eu hadrodd, eu mireinio a'u datblygu wrth i storïwyr deithio Cymru'n chwilio am gynulleidfa.

Mae'r gallu i ddweud stori dda yn grefft ynddo'i hun, ac un sy'n feistr ar y grefft hon yw Catherine Aran. Meddai, "Tŷ Gwerin ar Faes yr Eisteddfod yw cartref naturiol cystadleuaeth fel hon, ac mae'n braf gweld y datblygiad hwn yn y Rhestr Testunau eleni.

"Does dim byd yn rhoi'r fath wefr â gwybod eich bod wedi llwyddo i hoelio sylw cynulleidfa gyda'ch stori, a bod pawb yn awchu i wybod beth sy'n digwydd nesaf. Teimlad heb ei ail, ac rwy'n hynod falch bod yr Eisteddfod yn rhoi'r cyfle i ragor o bobl gael profi'r un wefr a mynd ati i ddatblygu'u sgiliau yn y maes.

"Mae gennym ni gymaint o chwedlau arbennig yn y Gymraeg, ac wrth deithio o gwmpas y lle mae rhywun yn clywed straeon lleol, straeon mwy cyfoes, a straeon sydd, efallai, ddim yn wir bob gair! Ac mae gan bob storïwr ei steil arbennig ei hun, ei ffordd wahanol o adrodd stori, gyda phob perfformiad yn gwbl unigryw."

"1af Mai yw'r dyddiad cau felly mae digonedd o amser i feddwl am syniad a chreu stori sy'n sicr o daro deuddeg."

Mae manylion y gystadleuaeth yn Adran Llefaru'r Rhestr Testunau sydd ar gael i'w brynu mewn siopau lleol neu ar wefan yr Eisteddfod. Mae'r wybodaeth hefyd ar wefan yr Eisteddfod, www.eisteddfod.cymru/cystadlaethau-2018.

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd ym Mae Caerdydd o 3-11 Awst. Am fwy o fanylion ewch ar-lein.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

Llwyddiant Elina a Splash
Ers dwy flynedd bellach mae Elina a'i chyfaill ffyddlon Splash wedi profi llwyddiant ym myd dressage. Yn bymtheg oed ac yn ddisgybl TGAU yn ysgol Plasmawr mae Elina wedi bod yn reidio ceffylau ers 11 mlynedd yng Nghanolfan Marchogaeth Talygarn gan ddechrau gyda'r elfen neidio. Cafodd gryn lwyddiant yn y byd 'show jumping' ond ddwy flynedd yn ôl newidiodd ei diddordeb a dyma drio ei llaw ar dressage - hi a Splash sy'n bedair ar bymtheg oed! Maent wedi cystadlu sawl gwaith a phrofi llwyddiant gan ddod yn bumed yn 2017 ac yn ail yn 2018! Dod yn gynta yw'r nod i Elina felly dalied ati, gweithiwch yn galed fel tîm a phob llwyddiant.

Sweeney Todd: Y Diafol farbwr Stryd Fflyd
Mae ysgol Plasmawr wrthi yn gweithio ar ddrama gerdd iasol sef Sweeney Todd: Y Diafol Farbwr Stryd Fflyd. Bydd nifer o blant yr ardal yn rhan o'r cast ac yn y corws. Iestyn Jones fydd yn chwarae rhan Toby, tra bod Aled Robbins, Cadi Williams, Steffan Thompson a Tom Roberts ymysg y rhai fydd yn cymryd rhan. Bydd Daniel Jones yn cyfeilio ar y drymiau.

Mynnwch eich tocynnau drwy'r ysgol. Bydd pedair sioe am 7yh Mawrth 19, 20, 21 a 22. Bydd yn sioe gwerth ei weld.

Clwb Gwawr
Cafwyd noson wych yn La Luna ddiwedd Ionawr - bwyd hyfryd a chwmni difyr. Braf oedd cael dechrau'r tymor a dal i fyny gyda ffrindiau. Croeso i unrhyw un ymuno gyda ni. Dewch draw i noson Cawl a Chân yn Neuadd yr Eglwys Creigiau nos Iau, Mawrth 1af i ddathlu Gŵyl Dewi. £3 os nad ydych yn aelod o Glwb Gwawr.

Ym mis Ebrill (19eg) byddwn yn cael noson o fwyd a diod Eidaleg yng ngofal Sian 'loving Welsh food'. Bydd yn noson hwyliog, yn gwrando ar brofiadau difyr, yn ymweld â dinasoedd Ewrop. Dewch yn llu.

Croeso cynnes iawn . . .
. . . Llio, Mark a'r merched, Catrin, Gwen a Luned, i'ch cartre newydd yn Creigiau! Symudodd y teulu bach ddechrau mis Chwefror o Radur i'w cartre hyfryd ger yr ysgol yn Creigiau. Byddwch yn siwr o setlo yma'n gyflym a buan iawn y dowch yn rhan o'r gymuned gyfeillgar sy' yn y pentre. Pob hapusrwydd!

Stori'r Garthen
Mae'n siŵr y bydd llawer ohonoch yn gyfarwydd â hanes y cwilt hardd grëwyd gan ddwylo medrus Marian Evans dros y gaeaf er mwyn codi arian at Eisteddfod Caerdydd. Mae'r cwilt ar werth - mae modd ei brynu o hyd am y pris iawn! Wel digwyddodd Hannah Roberts wylio cyfweliad Marian gyda Yvonne Evans ar 'Pnawn Da' chydig yn ôl a chael ei hysbrydoli i gyfansoddi cerdd i'r garthen. Mae'n werth ei ddarllen! Mwynhewch!

I Marian "Cymorth roist i Ŵyl y Bae
a'i chynnal yn dy bwythau"

CWILT CAERDYDD

Bu cwilt erioed yn cynnal gwres
I'n cadw ni yn gynnes
Ym mythynnod Cymru Fu
Yn gysur ar y gwely
Ei daenu dros y drws a'i ddwylan
I gadw brath yr oerwynt allan.
Daeth y grefft o Bensilfania
Lle'r oedd Yr Amish yn gwehydda
Un o weithgareddau'r llwyth
Yn gweu a'u bysedd ystwyth
Dawn a dysg yn dod o draw
Nodwydd a phwyth mewn dwylaw.
Sylwent ar batrymau'r tir
A'u gwaith 'n anwylo natur
Seren, mynydd, Rhosyn Saron
Edau'n clymu eu holl obeithion
Caban pren --- yn rhain fe'i gwnïwyd
Joch o goch yn dân ar aelwyd.

Ein cwilt ni sy'n llinach 'rhain
A'i ddiwyg 'run mor gywrain
Yn llafar yn y sgwariau yma
Mae Cerdd a Llên a Byd y Ddrama
Daw cwilt yr Ŵyl i'r Maes a'i wres
Dan hwn bydd gwlad yn gynnes
Taenwn ef dros ddrws ein hiaith
Rhag gwyntoedd pob ysglyfaeth
Cawn gwtsh ac ymfalchïwn
Gwelwn Ŵyl sy'n glyd dan hwn
Ymaflyd wnawn a'i dynnu 'nol
I'n gwarchod i'r dyfodol.

H.R.

Dyweddïo yn yr Eira
Yn ystod y gaeaf dyweddïodd Arwyn Davies a'i gariad Laura yn yr eira yn agos i gopa un o fynyddoedd uchaf yr Alpau. Efallai bydd rhai ohonoch yn cofio ffilm James Bond 'On Her Majesty's Secret Service' - ffilmiwyd rhan ohoni ar yr un mynydd yn y Swistir sef y Schilthorn. Mab Gareth a Sylvia Davies yw Arwyn a merch cafodd ei magu yn y mynyddoedd yn St Moritz yw Laura. Pob hapusrwydd i'r ddau.

Gwellhad llwyr . . .
. . . i Mrs. Joan Evans gafodd anffawd cas jyst cyn y 'Dolig. Da eich gweld yn mentro allan erbyn hyn.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mawrth
i gyrraedd erbyn
23 Mawrth 2018

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.com

Argraffwyr:
Copyprint Wales
Trefforest
www.copyprintwales.co.uk

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

Cyngerdd Gŵyl Dewi

Côr yr Einion a
Chôr Ysgol Garth Olwg
7.15yh Nos Iau,
Mawrth 15ed
yn Capel y Tabernacl, Efail Isaf

Gwybodaeth bellach: 02920890979

MERCHED Y WAWR
Pontypridd

8fed o Fawrth
Cinio Gŵyl Dewi
Trattoria Tonysguboriau

Rhagor o fanylion:
01443 485272

MERCHED Y WAWR
Tonysguboriau

Mawrth 21ain

Cinio i ddathlu gŵyl ein Nawddsant.

Rhagor o fanylion:
01443 223828

Clwb Mynydda Cymru

Mae'r daith nesaf ddydd Sadwrn, 10 Mawrth yn cychwyn o bont William Edwards Pontypridd, ac yn mynd ar hyd llwybr y pererinion i Benrhys heibio Ynysybwl a Llanwynno. Am wybodaeth bellach ac i ymuno â'r daith cysylltwch â Peredur Evans 07890 684180
EvansHP@cardiff.ac.uk
www.clwbmynyddacymru.com

Bore Coffi i'r dysgwyr
yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob dydd Gwener am 11 y bore.
Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.

CLWB Y DWRLYN

Cinio Gŵyl Ddewi

Prynhawn Sul
4 Mawrth 2018
Yng Nghlwb Golff Creigiau

Manylion: 029 20890040

CYLCH CADWGAN

Nos Wener 16 Mawrth 2018
am 8.00pm.
ELINOR WYN REYNOLDS
yn siarad ar y testun:
'Anturiaethau mewn Barddoniaeth'
yn Y Ganolfan,
Tabernacl, Efail Isaf

Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant

Cinio Gŵyl Ddewi -
Gŵr Gwadd – Richard Elfyn

Clwb Golff Creigiau
Nos Wener, 9 Mawrth 7.00.pm ar gyfer 7.30.pm

Manylion: 01443 203809

Cylch Llyfryddol Caerdydd

Gwener, 16 Mawrth 2018
Dr Rhiannon Heledd Williams yn trafod ei chyfrol, *Cyfaill Pwy o'r Hen Wlad? Gwasg Gyfnodol Gymraeg America 1838–1866.*

Cynhelir y cyfarfodydd am 7.00 o'r gloch yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU.

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd y mis: Awen Mai Evans

Llantrisant
Bydd cyfle i helpu i lanhau Comin Llantrisant a/neu'r Bili Wynt ar Fawrth y 4ydd, o 10 y bore tan 12 amser cinio. Gwerthfawrogir unrhyw gymorth a darperir yr holl offer glanhau ac yn y blaen. Poster: sylwer bod y poster yn uniaith Saesneg – lan i chi o ran ei gynnwys

Cynhelir cyngerdd codi arian yn Eglwys Llantrisant ar Fawrth 23ain ar gyfer prosiect adnewyddu'r Guildhall yn Llantrisant. Yn cymryd rhan bydd Band Pres Lewis Merthyr, Cantorion Richard Williams, y 'Gentlemen Songsters' a Chôr Ysgol Gynradd Llantrisant. Pris y tocynnau yw £7.00 a gellir eu prynu yn y Model House neu oddi wrth Dean Powell - 077773 352 962 neu e-bost: dean@llantrisant.net

A dau ddigwyddiad i edrych ymlaen atynt yn hwyrach eleni: Ar Fai 6ed cynhelir Dawns Haf Llantrisant.

Ar Fehefin y 9fed, cynhelir Picnic Mawr yng ngerddi Castell Llantrisant. Bydd mwy o wybodaeth i ddilyn. Bydd y Ddawns Haf a'r Picnic hefyd yn codi arian tuag at brosiect adnewyddu'r Guildhall.

Groes-faen
Llongyfarchiadau mawr iawn i Jess Horsey, 2, Y Parc, Groes-faen ar gael swydd athrawes Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Cathays, Caerdydd. Pob hwyl i ti gyda'r dysgu Jess.

Gohebydd mis nesa: Dafydd Roberts dafydd@glancreigiau.plus.com

Mis o raglenni i ddathlu brwydr menywod Cymru a'r byd

Dewrder. Penderfyniad. Dycnwch. Angerdd. Dyma rai o'r geiriau i ddisgrifio'r menywod fu'n ymladd am degwch a chyfiawnder cymdeithasol dros y ganrif a mwy diwethaf.

Fe fydd mis Mawrth 2018 ar S4C yn llawn rhaglenni difyr am fenywod dewr, penderfynol, dygn ac angerddol wrth i'r sianel nodi canrif ers i rai menywod gael y bleidlais ym 1918.

Mae'r amserlen yn cynnwys rhaglenni dogfen gafaelgar am fod yn fenyw ac yn fam heddiw, gyda dwy o ddarlledwyr amlyca' Cymru, Alex Jones a Ffion Dafis yn eu cyflwyno.

Fe fydd hefyd rhaglenni adloniant a dogfen a fydd yn cynnwys portread o sêr pop benywaidd y 1960au a'r 1970au, gig gyda rhai o artistiaid yr 21ain Ganrif, rhifyn arbennig o'r rhaglen drafod **Pawb a'i Farn** gyda phanel o fenywod yn unig, a dogfen am un o fenywod mwyaf blaengar Ewrop yr 20fed Ganrif, Louise Weiss.

Daw'r cyfan i'r sgrin mewn mis pan fyddwn yn nodi Diwrnod Rhyngwladol y Merched ar 8 Mawrth a Sul y Mamau ar 11 Mawrth a phan mae trydedd gyfres o **Parch** yn dechrau nos Sul 4 Mawrth gyda Carys Eleri yn portreadu'r cymeriad hynod Myfanwy Elfed yn y gyfres a ysgrifennwyd gan yr awdur disglair, Dr Fflur Dafydd.

Dyma raglenni'r tymor:

Ffion Dafis - Bras, Botox a'r Bleidlais
Nos Sul 04.03.18 @ 8.00, Cynhyrchiad Rondo
Ganrif wedi i rai merched ennill y bleidlais am y tro cyntaf, yr actores a'r awdures Ffion Dafis sy'n mynd ar daith bersonol i weld faint mewn gwirionedd sydd wedi newid i fenywod erbyn heddiw. Yn ogystal â thrafod gyda'r menywod dylanwadol yn ei bywyd hi, bydd Ffion yn sgwrsio â merched ysbrydoledig o bob cwr o'r wlad er mwyn gweld faint mae cymdeithas wedi symud ymlaen o ddifri.

Pawb a'i Farn
Nos Iau 08.03.18 @ 9.30, Cynhyrchiad BBC Cymru
Ar ddiwrnod rhyngwladol y merched panelwyr Pawb a'i Farn fydd Dr Elin Haf Davies, anturiaethwraig a pherchennog busnes, Siân Gwenllïan AC, Plaid Cymru, yr Athro Mari Lloyd-Williams o Brifysgol Lerpwl, y Democrat Rhyddfrydol y Farwnes Christine Humphreys a Melanie Owen o'r blaid Geidwadol. Cyfle i drin a thrafod pynciau sydd o bwys i gynulleidfa o bobl Sir Ddinbych.

Alex Jones: Y Fam Gymreig
Nos Sul 11.03.18 @ 8.00, Cynhyrchiad Boom Cymru
Yn y ddogfen yma fe fydd Alex Jones, a gafodd ei phlentyn cyntaf flwyddyn yn ôl, yn teithio ar hyd a lled Cymru yn sgwrsio gyda mamau Cymreig eraill. Fe fydd hi'n gofyn y cwestiynau oesol – a yw hi'n bosib i fam gael y cyfan? Sut mae cydbwyso bywyd teuluol a gyrfa a beth yw'r gyfrinach i fod yn fam dda? Dyma gyfle i famau ddweud eu dweud a rhannu profiadau a straeon.

Lle Aeth Pawb?: Merched Pop '65-'75
Nos Sadwrn 17.03.18 @ 8.00, Cynhyrchiad Cwmni Da
Rhaglen arbennig Lle Aeth Pawb? sy'n dathlu cyfraniad merched i fyd adloniant poblogaidd Cymru'r 60au a'r 70au. Gyda chwmni Sain yn rhyddhau CD yn dathlu cyfraniad y merched hyn, mae'r rhaglen yn olrhain hanes artistiaid fel Evelyn Owen o Fôn aeth ymhell iawn o'i chynefin cyn cael 'hit' yn Singapore a Tammy Jones a lwyddodd i ddenu'r nifer fwyaf erioed o bleidleisiau yn y gyfres dalent Opportunity Knocks. A beth ddigwyddodd i'r gantores benfelen, Heather Jones, y Pelydrau o Drawsfynydd a'r triawd o Gaerdydd, Y Diliau?

Louise Weiss: Brwydro'n y cysgodion
Nos Sul 18.03.18 @ 8.00, Cynhyrchiad Rondo Media
Hanes un o ferched mwyaf dylanwadol Ffrainc wnaeth ymladd rhagfarn a chaledi i gael ei chydnabod fel newyddiadurwraig, awdur a gwleidydd blaenllaw ac ymgyrchydd diflino dros sicrhau'r bleidlais i ferched yn ei mamwlad. Gwnaeth dycnwch Louise Weiss arwain at wireddu breuddwyd wrth iddi draddodi araith agoriadol y Senedd Ewropeaidd a hithau'n 86 oed.

Cyngerdd Eden ac Elin Fflur
Nos Sul 31.03.18 @ 7.30, Cynhyrchiad Avanti Media
Wedi dwy gig anhygoel ar Faes Eisteddfod Môn 2017, paid â chau'r drws ar y cyfle i fwynhau Eden ac Elin Fflur yn perfformio ar yr un llwyfan sef Theatr Bryn Terfel, Pontio Bangor. Tyrd lawr o'r dyffryn a phaid â bod ofn dod i glywed yr hits i gyd, gydag ambell syrpreis.

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant (Lluniau tudalen 13)

Gwobr Efydd Y Siarter Iaith
Rydym yn falch iawn o gyhoeddi ein bod wedi llwyddo i ennill Gwobr Efydd Y Siarter Iaith yn ddiweddar. Dros y misoedd diwethaf mi fuom yn gweithio'n galed ar bob math o weithgareddau sy'n hybu Cymreictod o fewn yr ysgol e.e. amrywiaeth o ymwelwyr ac ymweliadau, trac yr wythnos ac ati. Diolch i bawb am eu gwaith caled ac ymlaen â ni nawr at y Wobr Arian!

Sioe "Cip"
Ar Ionawr y 30ain fe ddaeth Tudur Phillips atom er mwyn perfformio sioe arbennig yn seiliedig ar y cylchgrawn "Cip". Cafwyd amser hwyliog iawn ac o ganlyniad mae nifer helaeth o'r disgyblion wedi tanysgrifio er mwyn derbyn "Cip" i'w cartrefi o hyn ymlaen.

Eisteddfod yr Ysgol
Ddydd Llun y pumed o Chwefror, cynhaliwyd ein heisteddfod ysgol. Yn ystod y dydd, bu degau o ddisgyblion yn canu ac yn llefaru, heb sôn am y plant fu wrthi'n ddyfal ymlaen llaw yn cyfansoddi cerddi ac yn ysgrifennu storiau. Mrs Siw Thomas a Mrs Siân Davies gafodd y swydd anodd o feirniadu yn ystod y dydd – diolch yn fawr i'r ddwy ohonynt am roi o'u hamser. Llongyfarchiadau arbennig hefyd i Hedd Teifi o Flwyddyn 6 am ennill y gadair am ei gerdd ar "Y Gêm".

Diwrnod Miwsig Cymru
Ar Chwefror y 9fed mi fuom yn dathlu Diwrnod Miwsig Cymru. Yn osgystal â gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg yn y dosbarthiadau, fe ddaeth pawb i'r neuadd er mwyn cael sesiwn o ganu caneuon hwyliog. Roedd pawb wrth eu boddau wrth ganu rhai o'r hen ffefrynnau!

Ffarwelio
Hoffem ddymuno'n dda i Mrs Sera Minton sydd wedi'n gadael yn ddiweddar er mwyn dechrau swydd newydd yn Ysgol Llanhari. Hefyd i Ms Bethan Clayton sy'n ein gadael er mwyn gweithio gyda'r henoed. Diolch yn fawr iddynt am eu gwaith caled a gobeithio y byddant yn hapus yn eu swyddi newydd.

Cwis Llyfrau
Fe deithiodd Nia Powell, Lena Evans, Hedd Teifi a Harri Stiff o Flwyddyn 6 i Dŷ Dysgu yn Nantgarw ar y 13eg o Chwefror, er mwyn cystadlu yn Y Cwis Llyfrau Cymraeg. Buont yn darllen a thrafod "Trysorfa Chwedlau Cymru" gan Tudur Dylan. Ym mis Ebrill byddant yn dychwelyd i Dŷ Dysgu er mwyn cystadlu yn ail hanner y gystadleuaeth – bryd hynny bydd rhaid iddynt baratoi cyflwyniad dramatig ar lyfr. Da iawn chi blant!

Diwrnod Diogelwch ar y Wê
Ar y chweched o Chwefror mi fuom yn dathu diwrnod Diogelwch ar y Wê gyda phob dosbarth yn cyflawni gweithgareddau arbennig ar sut i gadw'n ddiogel ar lein.

Llwyddiant Sgio
Llongyfarchiadau mawr i Harri Stiff o Flwyddyn 6 a fu'n cynrychioli tîm Y Dreigiau mewn cystadleuaeth sgio yn y Swistir yn ddiweddar. Gwych!

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Taith yr Adran Gelf a Dylunio a Thechnoleg i Vienna (Lluniau tudalen 14)
Wythnos diwethaf, fe aethom ni ar daith i Vienna, Awstria gyda'r adrannau Celf a Dylunio & Thechnoleg, i weld y bensaernïaeth hyfryd ac i ymweld â'r amgueddfeydd di-ri. Ar ôl codi am 2.30y.b. fe hedfanon ni o faes awyr Caerdydd i Amsterdam ac wedyn ymlaen i Awstria. Cyrhaeddon ni yn yr eira ac roedd pawb mor gyffrous yn taflu peli eira, am hwyl a sbri!

Am weddill y dydd cerddon ni o gwmpas y ddinas i ddod yn gyfarwydd â'r lle. Aethon ni i weld Plas Belvedere. Roedd yn edrych mor brydferth yn yr eira, yn sicr fel llun cerdyn post! Mi oedd pob un ohonom wedi cymryd mantais o'r tywydd trwy gymryd llu o luniau ar gyfer ein portffolio celf a dylunio. Er roedd yn hardd iawn, mi oedd yn oer iawn! Y noson honno aethom allan i gael pizza, diwrnod hir ond dechreuad gwych i'r daith.

Ar yr ail ddiwrnod dechreuon ni gyda thaith gerdded o gwmpas y ddinas. Cawsom ein harwain gan Kristen ein tywysydd am y bore. Mi oedd hi'n esbonio hanes y ddinas gan hefyd ddangos i ni'r llefydd gorau i fynd i flasu'r gacen enwog 'Sachertorte'. Wrth i ni gerdded a chlywed yr holl hanes llwyddom i dynnu sawl llun eto ar gyfer ein gwaith gan ystyried elfennau pwysig o ffotograffiaeth i gael y safon gorau. Ar ddiwedd y daith aethom mewn i Eglwys Gadeiriol San Steffan, lle gwyliom wasanaeth yn cael ei gynnal. Mi oedd yr adeilad yn un crand a phrydferth. Wedyn cerddom ar hyd yr afon i weld celf y stryd, roedd nifer o beintiadau yn dangos pethau hanesyddol a chyfredol am y ddinas. Roedd sawl artist wedi creu cerflunwaith ar gyfer ochrau'r afon lle mae pobl yn mynd i gymdeithasu yn ystod oriau'r dydd. Roedd gweld y ddinas o'r persbectif yma hefyd yn ddiddorol iawn.

Yn y prynhawn aethom i ymweld ag amgueddfa'r artist enwog 'Hundertwasser', roedd yn braf gweld ei waith gan ein bod wedi astudio'r artist ym mlwyddyn 7! Roedd y darnau mosaig o gwmpas yr adeilad a'r llawr yn llachar iawn a gan fod yr artist yn dehongli ei waith fel gwaith celf naturiol sy'n rhan o'r ddaear mi oedd yr adeilad yn un igam ogam, doedd dim un llinell syth, roedd hyn yn gwneud i ni gwestiynu'r holl beth o ran bod yn ymarferol. Gorffennom ni'r diwrnod yn yr Hard Rock Café lle cafwyd amser i drafod yr hyn a welsom ac i fynd dros amserlen y diwrnod canlynol.

Ar ein diwrnod olaf, aethom i'r amgueddfa 'Scession' i weld gwaith yr artist Kustav Klimt. Roedd yr ystafell yn anhygoel, yn llawn aur a darluniau manwl tu hwnt. Wedyn aethom draw i'r amgueddfa Celf Fodern, roedd yn llawn gwaith a chysyniadau diddorol iawn. Gwelom waith ffilm, cerflunwaith, ffotograffiaeth a gosodweithiau. Mewn un ystafell gofynnwyd i ni fod yn rhan o'r gosodwaith a chymryd rhan trwy arlunio ar y llawr a gwisgo cotiau arian! Mi oedd hwn yn deimlad gwahanol, rhywbeth dydyn ni ddim yn gyfarwydd â gwneud na gweld. I orffen ein dydd olaf aethom draw i'r adeilad Rauthaus i sglefrio iâ, roedd hyn hefyd yn hwyl ac yn ffordd dda o orffen y daith, er bod rhai ohonom wedi treulio rhan fwyaf o'r amser ar y llawr! Roedd y profiad o fynd ar daith yn un fythgofiadwy ac os nad ydych wedi bod i Vienna awgrymaf i chi fynd. Lle llawn prydferthwch a phobl gyfeillgar.
Gan Elin Griffiths-Warner, Blwyddyn 12

Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

Eisteddfod Ysgol
Cawsom ddiwrnod o gystadlu brwd wrth i ni ddewis cynrychiolwyr ar gyfer yr Eisteddfod Gylch. Llys Llwynau oedd yn fuddugol y tro yma, ond braf oedd gweld canran mawr o'r plant yn llefaru a chanu mor dda. Pob lwc i'r cystadleuwyr llwyddiannus yn y rownd nesaf.

Siarter Iaith
Pleser oedd croesawu Myfanwy Neale a Ceryl Rowe atom am y diwrnod er mwyn i ni rannu ein gwaith caled a'n hymrwymiad at y Siarter Iaith. Roedden yn hapus iawn i gyrraedd y cam Efydd ac edrychwn ymlaen at gyrraedd y cam nesaf. Diolch i Miss Mearns a Cewri Castellau am eu holl waith caled yn arwain y cynllun.

Rygbi'r Urdd
Llongyfarchiadau i'r tîm merched 7 bob ochr wrth gyrraedd y rownd gynderfynol yng nghystadleuaeth diweddar yr Urdd ym Mhenybont.

Glanllyn
Mwynhaodd Blwyddyn 6 wythnos gofiadwy (ac oer!) yng Nglanllyn cyn gwyliau'r hanner tymor. Diolch i Mr James a Miss Harris am drefnu a gwarchod y plant yn ystod yr wythnos.

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Sioe Cip

Eisteddfod yr Ysgol

Tîm y Cwis Llyfrau

Harri Stiff

Ysgol Gynradd Evan James
(Tudalen 8)

Arweinyddion Chwarae

Glanllyn

Cwis Llyfrau

Ysgol Gyfun Garth Olwg

The Brilliant Club
Dros y misoedd diwethaf, cafodd 11 disgybl o Flwyddyn 9 a 10 y cyfle i gymryd rhan mewn prosiect o'r enw 'The Scholars Programme' a drefnwyd gan 'The Brilliant Club.' Yn y prosiect hwn, cawsom gyfle i weithio gyda thiwtor PHD, a dysgu am y maes roedd yn arbenigo ynddo. Yn ein hachos ni, 'neuroscience' oedd hyn. Cawsom 6 sesiwn yn gweithio gyda'r tiwtor cyn roedd yn rhaid i ni fynd ati i ysgrifennu traethawd 2000 o eiriau am beth roeddem wedi dysgu, ac roedd disgwyl i ni wneud ein hymchwil ein hun hefyd. Pwrpas y prosiect oedd i'n hannog i ymgeisio am brifysgolion gorau Prydain, ac i ddeall mwy am sut mae prifysgolion yn gweithio'n gyffredinol.

Ar y pedwerydd ar ddeg o Chwefror, aethom i Brifysgol Bryste er mwyn graddio o'r cwrs. Tra roeddem yno, cawsom gyfle i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau gwahanol megis dysgu am brifysgolion, yn benodol Bryste. Cawsom hefyd gyfle i edrych o gwmpas rhai o brif adeiladau'r campws gyda myfyrwyr sydd yn astudio yno, cyn ein seremoni graddio. Rwyf yn falch iawn ein bod wedi cael y cyfle i gymryd rhan mewn prosiect mor unigryw a chael y cyfle i ddysgu am rywbeth sydd yn hollol wahanol i'r gwaith rydym ni yn ei wneud yn yr ysgol. Rydym ni i gyd wedi elwa'n fawr o hyn a byddwn ni'n fwy ymwybodol o sut mae popeth yn gweithio pan fyddwn ni'n ymgeisio i fynd i'r brifysgol. Gan Gruff Roberts, Blwyddyn 10.

Llysgenhadon Iaith

Ddydd Gwener yr 16eg o Chwefror aeth Mr Parry â chriw o ddisgyblion brwd Blwyddyn 8 i Gwrt Insole yn Llandaf. Pwrpas y dydd oedd hyfforddi'r plant i fod yn llysgenhadon iaith. Yn eu rôl newydd, bydd y disgyblion yma'n gweithio gyda'u hathrawon Ffrangeg er mwyn hybu pwysigrwydd ieithoedd ymhlith eu cyfoedion. Fel rhan o'r dydd, cymerodd y disgyblion ran mewn amrywiaeth o weithgareddau megis creu cwcis ffortiwn yn Ffrangeg ac ysgrifennu barddoniaeth 'slam' Almaeneg. Ar ddiwedd y dydd, trafodwyd syniadau am weithgareddau i'w cynnal gyda disgyblion blwyddyn 7. Mae'n edrych yn debyg y bydd disgo amlieithog ar y gweill! Yn dilyn y gwyliau hanner tymor bydd gwasanaeth arbennig i ddisgyblion Blwyddyn 8 i gyflwyno bathodynnau i'r disgyblion hyn. Mae dyfodol ieithoedd yng Ngarth Olwg yn gyffrous iawn!

Taith yr Adran Gelf a Dylunio a Thechnoleg i Vienna
(tudalen 12)

Gweithdy Radio

Ar y 15fed o Chwefror cafodd ugain o ddisgyblion blwyddyn 10 gyfle i greu a chynhyrchu rhaglen radio eu hunain gyda chymorth Marc Griffiths o Studiobox/CymruFM. Roedd rhaid iddynt ddewis y caneuon, amseru a golygu'r rhaglen a chyflwyno'r holl beth. Cafodd y rhaglen ei darlledu'r noson honno ar CymruFM. Roedd y disgyblion wedi mwynhau'r profiad yn fawr ac roedd wedi ennyn diddordeb sawl un mewn gyrfa yn y byd cyfryngau.

Llwyddiant pêl-droed
Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed bechgyn dan 16 yr ysgol sydd wedi cyrraedd rownd yr 8 olaf yng nghwpan RhCT.

Ysgol Llanhari

Dydd Miwsig Cymru
Dathlwyd Dydd Miwsig Cymru ar y 9fed o Chwefror ac roedd yn gyfle gwych i'r disgyblion glywed eu hoff ganeuon Cymaeg a mwynhau amrywiol weithgareddau i ddathlu'n diwylliant drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynhaliwyd gig yn yr adran uwchradd lle bu DJ Gareth Potter yn ymweld â'r ysgol. Diolch i Gwyndaf Lewis o'r Fenter Iaith am drefnu a dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd yn y Gorllewin.

Sêr radio Cymru fm

Wythnos yn ddiweddarach croesawyd y DJ Marc Griffiths i'r ysgol i gynnal gweithdy radio gyda disgyblion Cnocell y Coed a disgyblion CA3. Bu'n gyfle eto i'r disgybion ddewis eu hoff ganeuon Cymraeg ac i greu a recordio eitemau. Darlledwyd yr eitemau yn ddiweddarach gyda'r nos ar Cymru fm. Braf iawn gweld hyder y disgybliom ar draws y ystod oedran a gobeithiwn barhau â'r fenter hon o dan arweiniad criw o ferched blwyddyn 10 yn ystod y misoedd nesaf.

Y briodas fawr!
Unwaith eto eleni bu disgyblion yr adran gynradd wrth eu bodd yn paratoi tuag at briodas yn eglwys y plwyf Llanhari i gyd fynd â'r thema Dathlu. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan y disgyblion gyda Ficer y plwyf yn chwarae rhan allweddol hefyd. Mwynhaodd pawb y profiad yn fawr ac wrth gwrs roedd rhaid cael neithior a pharti nôl yn yr ysgol i ddathlu!

Llysgenhadon Iaith
Mae pymtheg o ddisgyblion blwyddyn 9 yn llysgenhadon iaith, ac fe fuon nhw'n brysur yn paratoi ar gyfer dathlu diwylliant Tseiniaidd cyn hanner tymor. Y llysgenhadon fu'n gyfrifol am drefnu gweithgareddau i ddisgyblion bl7 oedd yn cyd-fynd â dathliadau y flwyddyn newydd Tseiniaidd. Cafwyd tipyn o hwyl cyn y gwyliau a da iawn i flwyddyn 9 am arwain.

Mynd o Steddfod i Steddfod
Wedi diwrnod prysur a chystadleuol yn eisteddfod yr adran gynradd bydd nifer o'r disgyblion buddugol yn cystadlu yn yr Eisteddfod gylch ar ddechrau Mawrth. Cynhaliwyd nifer o gystadlaethau gwaith cartref - llenyddol a chelf a bydd y gwaith yma yn cael ei anfon hefyd i'w feirniadu ar lefel genedlaethol. Bu cystadlu brwd rhwng y llysoedd – llongyfarchiadau i bawb!
Am y tro cyntaf erioed bydd parti unsain o adran gynradd Llanhari yn cystadlu yn yr eisteddfod gylch a hynny o dan arweiniad yr Arweinydd Pwnc Cerdd Miss Bethan Phillips. Pob lwc iddyn nhw ac i'r unigolion o'r cynradd a'r uwchradd, a chorau yr uwchradd a fydd yn ceisio ennill eu lle yn y genedlaethol yn Ne Powys ym mis Mai.

Cwsmeriaid cudd
Mae nifer o ddisgyblion blwyddyn 10 o dan arweiniad Miss Catrin Rowlands wrth eu

bodd yn astudio Busnes ac fel rhan o'u gwaith cwrs aethant i siop Tesco yn Nhonysguboriau i ymddwyn fel cwsmeriaid cudd gan edych ar bob agwedd o waith staff y siop a'r cwmni o safbwynt cwsmeriaid. Rhaid wrth gwrs oedd cael profi gwasanaeth y caffi cyn dychwelyd i'r ysgol!

Categoreiddio Ysgolion - Llanhari yn ysgol werdd eto!
Rydym yn hapus iawn bod Ysgol Llanhari wedi ei gosod yn y band cyntaf o ysgolion gwyrdd am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae hyn yn destun balchder inni ac yn dyst i ymrodddiad yr holl staff a disgyblion. Pedair ysgol werdd sy'n Rhondda Cynon Taf a braf dweud bod dwy o 'rheiny yn rhai cyfrwng Cymraeg.

Croesawu Ymwelwyr
Rydym yn gyson yn ffodus i allu croesawu ymwelwyr sy'n cyfoethogi profiadau y disgyblion ac nid oedd y diwrnod Abch a gynhaliwyd yn yr adrannau cynradd ac uwchradd ym mis Ionawr ddim gwahanol. Diolch yn fawr i'n holl gyfranwyr. Rhoddwyd ffocws ar yrfaoedd yn yr adran uwchradd a phleser oedd gwahodd nifer sy'n rhieni megis Mrs Lowri Roberts o'r BBC a Mr Fahy o Westy'r Ritz i siarad â disgyblion hŷn am bosibiliadau gyrfaol.
Yn ystod mis Chwefror buom yn ffodus iawn i elwa o arbenigedd Mrs Carrie Smith, rhiant arall, sy'n mentora criw o ddisgyblion bl9 ar gyfer y BBC School Report. Diolch i Mrs Emma Goodridge am drefnu ac edrychwn ymlaen at weld cyfraniadau y criw yn nes ymlaen ym mis Mawrth ar BBC Cymru.

Datblygu Talent - Clwb Rygbi Pontypridd

Y mae datblygu talent ifanc o ddalgylch cymoedd Rhondda, Cynon Taf, i chwarae rygbi ar y lefel uchaf posib, erioed wedi bod yn bwysig i Glwb Rygbi Pontypridd. Dros y degawdau blaenorol gwelwyd rhai o sêr rhyngwladol y gêm, megis Neil Jenkins, Martin Williams, Michael Owen a Gethin Jenkins, yn cael eu magu gan y clwb cyn mynd ymlaen i chwarae dros Gymru a'r Llewod.

Mae'r broses o ddatblygu talent yn parhau, gyda CR Pontypridd erbyn hyn ar lefel lled-broffesiynnol yn rhan o ranbarth y Gleision.

Y tymor hwn lansiwyd menter newydd hynod o bwysig - Pontypridd & Valleys Rugby Initiative - sydd yn gosod llwybrau pendant i chwaraewyr ifanc eu dilyn wrth anelu i chwarae i'r safon orau posib. Mae clwb Pontypridd wrth galon y fenter newydd hon.

O fewn y fenter, mae pum gris i chwaraewyr ifanc eu dilyn o lefel ysgolion dan bymtheg ymlaen drwy'r coleg ac i chwarae yn yr Uwch - Gynghrair genedlaethol ac i'r Academi ranbarthol.

Mae tîm Ysgolion Pontypridd wedi profi cryn lwyddiant y tymor hwn, wedi ennill chwech o'u saith gêm yng nghynghrair Tarian Dewar, ac yn awr yn barod i wynebu Caerdydd yn y rownd gynderfynol.

Gall nifer o ddisgyblion dan ddeunaw ddewis gadael ysgol i astudio yng Ngholeg y Cymoedd, ac mae tîm rygbi'r coleg yn cynnig y gris nesaf yn natblygiad y chwaraewyr rygbi ifanc. Yn cystadlu yng Nghynghrair Ysgolion a Cholegau Undeb Rygbi Cymry, mae Coleg y Cymoedd wedi bod ar y blaen trwy gydol y tymor, yn chwarae rygbi ymosodol a chyffrous, ac yn awr yn paratoi i herio Coleg Sir Gar yn rownd derfynol y gystadleuaeth.

Y lefel nesaf o ddatblygiad yw Prifysgol De Cymru gyda'i gampws a'i ganolfan hyfforddi newydd yn Nhrefforest a Nantgarw. Mae'r brifysgol yn cystadlu yng Nghynghrair Colegau BUCS y De gyda'r nod o ennill dyrchafiaeth i'r brif adran genedlaethol.

O blith y chwaraewyr sydd wedi datblygu drwy rengoedd yr ysgolion a'r colegau, daw cyfle i rai ymuno ac Academi ranbarthol y Gleision, hefyd i chwarae i glwb Pontypridd ar lefel ieuenctid, yna i'r tîm cyntaf ar lefel lled-broffesiynnol.

Mae nifer o chwaraewyr ifanc disglair yn awr yn dod i'r amlwg wedi dilyn y llwybr datblygiad hwn, er enghraifft y blaenasgellwr Alun Lawrence fu'n gapten ar Goleg y Cymoedd ac sydd y tymor hwn yn chwarae i'r Brifysgol a Phontypridd ac yn aelod o'r academi ranbarthol.

I sicrhau dilyniant, mae prif hyfforddwr Pontypridd, Justin Burnell, hefyd yn hyfforddi Ysgolion Pontypridd a Phrifysgol De Cymru, tra bod ei ddirprwy Gareth Wyatt yn hyfforddi Coleg y Cymoedd. Bydd y datblygiad hwn o chwaraewyr ifanc addawol o'r cymoedd yn sicr o elwa ar ei ganfed i glwb Pontypridd, gyda'r gobaith o gyflwyno rhai o sêr y dyfodol i Gymru.



THEATR GENEDLAETHOL
16.03.18 19:30



GWYL GREFFTAU
17.03.18 10:00-14:00

DIGWYDDIADAU
i ddod!